

Asesiad Llawn o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Manylion Cyffredinol

Adran: APADGOS	Is-adran: LLP
Dyddiad: 01.06.08	

Enw'r Polisi/Swyddogaeth/Cam gweithredu	A yw'n newydd Ydy/Nac ydy
Polisi Dysgu Oedolion yn y Gymuned	Ydy

Nodwch pa amcanion o'r polisi a allai effeithio ar gydraddoldeb a pha grwpiau cydraddoldeb a allai gael ei effeithio, neu a allai ddarparu cyfle i hyrwyddo cydraddoldeb.
<ul style="list-style-type: none">➤ Mwy a mwy o gyfleoedd i ariannu darpariaeth trwy'r sector gwirfoddol, gan gynnwys dysgu anffurfiol. Bydd hyn yn darparu cwrpas ehangach i gynllunio ac ariannu darpariaeth i grwpiau sy'n anodd cysylltu â nhw neu sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd.➤ Gwell safonau ansawdd. Mae hyn yn darparu cyfleoedd i sicrhau bod darparwyr yn gallu diwallu anghenion pob grŵp a darparu mynediad cyfartal at ddarpariaeth o safon uchel ledled Cymru.➤ Adeiladu cysylltiadau ar draws agendâu polisi. Mae'r polisi'n cydnabod bod angen adeiladu ar y cysylltiadau strategol sy'n bodoli rhwng polisïau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys strategaethau ffurfiol fel y Strategaeth i Bobl Hŷn, Cymunedau Nesaf, a mentrau polisi eraill fel y polisïau iechyd a lles a chynhwysiant cymdeithasol.

Cwblhawyd yr Asesiad Llawn gan:	
Cyfarwyddwr neu Reolwr yr Is-adran	Mike Hopkins/Ann Jenkins
Awdur/Arweinydd Polisi	Alison Bryant (Polisi Dysgu)
Pobl eraill a fu'n ymwneud â'r asesiad	

Mewnol	Craig Greenland (EHRD)
	Helen Jones (Polisi Dysgu)
Allanol	Mark Allen (Rheolwr Heneiddio'n Iach, Age Concern Cymru)
	Michelle Roberts (Rheolwr Gwasanaethau Aelodau, Anabledd Cymru)
	Alun Thomas, Pennaeth y Strategaeth Wleidyddol a'r Sector Gwirfoddol, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, Cymru

Pwy yw'r prif Rhanddeiliaid Polisi

Darparwyr a defnyddwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) cyfredol a phosibl? (gan gynnwys sefydliadau AB, AALI a sefydliadau o'r sector gwirfoddol), Estyn, NIACE Dysgu Cymru

Asesiad Effaith Llawn - Ffynonellau Tystiolaeth

Polisi: Polisi Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Nod y Polisi: Nod y polisi yw cynhyrchu'r canlyniadau canlynol, dros gyfnod o bum mlynedd i ddechrau:

- mwy o eglurdeb ynglŷn â'r hyn a gynlluniwyd ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned a'r arian ar ei gyfer (ACL);
- model cynllunio a darparu effeithiol a chyson;
- galluogi dysgwyr i gael mynediad mwy cytbwys at ddarpariaeth o safon uchel;
- dull mwy integredig o gynllunio ACL a datblygiadau cymunedol perthnasol;
- dulliau mwy cyson o fesur canlyniadau dysgwyr;
- swyddogaethau mwy clir i sefydliadau gwirfoddol a chymunedol; a
- fframwaith datblygu ansawdd a staff effeithiol.

Cofnod o dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer pob grŵp cydraddoldeb.		Asesiad o'r dystiolaeth			
		Cryf	Bodddhaol	Anfodddhaol	Dim dystiolaeth/ bylchau mewn tystiolaeth
Oedran					
TYSTIOLAETH	<p>Ystadegau Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru (LLWR) ar gyfranogiad dysgwyr – cael eu diweddarau pob blwyddyn.</p> <p>Poblogaeth Cymru: Trosolwg Demograffig 2008.</p> <p>Data Cyfrifiad 2001.</p> <p>Cynlluniau busnes partneriaeth yr ACL – i'w cymeradwyo a'u monitro gan APADGOS. Angen gwerthuso'r peilot ACL cyntaf – bydd yn cynnwys effaith trefniadau newydd ar ddysgwyr a chymunedau lleol.</p> <p>Bydd y polisi yn canolbwyntio ar ddysgwyr dros 19 oed. Tua hanner holl gyfranogwyr ACL dros 50 oed. Bydd ein polisi, felly, yn effeithio ar ddysgwyr hŷn yn arbennig.</p>	✓			
Anabledd					

TYSTIOLAETH	<p>Ystadegau LLWR ar gyfranogiad dysgwyr – cael eu diweddarau pob blwyddyn.</p> <p>Cynlluniau busnes partneriaeth ACL – i'w cymeradwyo a'u monitro gan APADGOS. Angen gwerthuso'r peilot ACL cyntaf – bydd yn cynnwys effaith trefniadau newydd ar ddysgwyr a chymunedau lleol.</p> <p>Ni ddylai'r polisi gael effaith negyddol. Gallai'r cyfle i gynyddu cyfraniad y gymuned wrth gynllunio darpariaeth ACL leol gynyddu'r cyfleoedd i gynnig darpariaeth berthnasol i grwpiau arbennig, gan gynnwys pobl anabl.</p>	✓			
Hunaniaeth o ran rhywedd					
TYSTIOLAETH	<p>Ystadegau LLWR ar gyfranogiad dysgwyr – cael eu diweddarau pob blwyddyn.</p> <p>Ffocws Ystadegol ar Ddynion a Menywod yng Nghymru 2007</p> <p>Data Cyfrifiad 2001</p> <p>Cynlluniau busnes partneriaeth ACL – i'w cymeradwyo a'u monitro gan APADGOS. Angen gwerthuso'r peilot ACL cyntaf – bydd yn cynnwys effaith trefniadau newydd ar ddysgwyr a chymunedau lleol.</p> <p>Menywod yw bron i ¾ o gyfranogwyr ACL. Bydd cyfleoedd i gynyddu'r cydbwysedd o ran rhywedd, heb gael effaith andwyol ar gyfranogwyr benywaidd, yn cael eu hystyried.</p>	✓			
Hil					
TYSTIOLAETH	<p>Ystadegau LLWR ar gyfranogiad dysgwyr – cael eu diweddarau pob blwyddyn.</p> <p>Arolwg Llafurlu Lleol/Arolwg Poblogaeth Blynyddol</p> <p>Data Cyfrifiad 2001.</p> <p>Cynlluniau busnes partneriaeth ACL – i'w cymeradwyo a'u monitro gan APADGOS. Angen gwerthuso'r peilot ACL cyntaf – bydd yn cynnwys effaith trefniadau newydd ar ddysgwyr a chymunedau lleol.</p> <p>Ni ddylai'r polisi hwn gael effaith negyddol. Gallai'r cyfle i gynyddu cyfraniad y gymuned wrth gynllunio darpariaeth ACL lleol ddarparu mwy o gyfleoedd i gynnig darpariaeth berthnasol i grwpiau ethnig arbennig.</p>	✓			

Crefydd a Chred				
TYSTIOLAETH	<p>Cynlluniau busnes partneriaeth ACL – i'w cymeradwyo a'u monitro gan APADGOS. Angen gwerthuso'r peilot ACL cyntaf – bydd yn cynnwys effaith trefniadau newydd ar ddysgwyr a chymunedau lleol.</p> <p>Ni ddylai'r polisi hwn gael effaith negyddol. Gallai'r cyfle i gynyddu cyfraniad y gymuned wrth gynllunio darpariaeth ACL lleol ddarparu mwy o gyfleoedd i gynnig darpariaeth berthnasol i grwpiau ethnig arbennig.</p>	✓		
Cyfeiriadedd Rhywiol				
TYSTIOLAETH	<p>Cynlluniau busnes partneriaeth ACL – i'w cymeradwyo a'u monitro gan APADGOS. Angen gwerthuso'r peilot ACL cyntaf – bydd yn cynnwys effaith trefniadau newydd ar ddysgwyr a chymunedau lleol.</p> <p>DS Nid yw data LLWR yn cynnwys gwybodaeth am gyfeiriadedd rhywiol y dysgwyr.</p> <p>Ni ddylai'r polisi hwn gael effaith negyddol. Gallai'r cyfle i gynyddu cyfraniad y gymuned wrth gynllunio darpariaeth ACL lleol ddarparu mwy o gyfleoedd i gynnig darpariaeth berthnasol i grwpiau ethnig arbennig.</p>	✓		
Hyrwyddo Cydraddoldeb				
TYSTIOLAETH	<p>Ystadegau LLWR ar gyfranogiad dysgwyr – cael eu diweddarau pob blwyddyn.</p> <p>Prosiect Sail Dystiolaeth Cydraddoldeb</p> <p>Cynlluniau busnes partneriaeth ACL – i'w cymeradwyo a'u monitro gan APADGOS. Angen gwerthuso'r peilot ACL cyntaf – bydd yn cynnwys effaith trefniadau newydd ar ddysgwyr a chymunedau lleol.</p>			

Crynodeb o'r Aseiad

Polisi: Polisi Dysgu Oedolion yn y Gymuned

Effeithiau Gwahaniaethol a nodwyd

Rhaid ystyried gallu ac arbenigedd cyfyngedig Partneriaethau ACL a staff darparu i adnabod a mynd i'r afael â materion cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau datblygu staff, yn ogystal ag ystyried y trefniadau ymarferol ar gyfer darpariaeth a gefnogir trwy'r partneriaethau, yn cynnwys lleoliad ac amseru.

Gallai methu â chysylltu polisi ACL ar lefel lleol gyda strategaethau perthnasol eraill arwain at effeithiau gwahaniaethol, ee ar ddysgwyr sy'n wynebu rhwystrau arbennig wrth geisio cael addysg, fel trefniadau teithio, mynediad, gofal plant ac ati. Felly, rhaid creu cysylltiadau cydweithio yma.

Dylid ystyried effaith y polisi a'i flaenoriaethau ar gyfer ACL ar gymunedau o ddiddordeb yn ogystal â chymunedau daearyddol.

Cyfleoedd a nodwyd i Hyrwyddo Cydraddoldeb

Mae angen sicrhau bod Partneriaethau ACL yn gymwys i ymdrin â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth. Dylai APADGOS nodi'n glir bod ganddynt gyfrifoldeb am faterion o'r fath, a ddylai gael ei arwain gan uwch reolwyr yn y sefydliadau perthnasol.

Gall ACL ddarparu cyfleoedd i herio a mynd i'r afael â stereoteipio diwylliannol. Gall gynnig cyfleoedd hefyd i hyrwyddo cydlyniant cymdeithasol a chydlyniant cymunedol.

Gall y cynllun grant dysgu anffurfiol alluogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gael mynediad ehangach i gyfleoedd dysgu, yn arbennig dysgwyr nad ydynt am ddilyn cyrsiau addysg achrededig.

Mae yna gyfle i ddefnyddio'r mentrau datblygu ansawdd a gefnogir trwy'r partneriaethau ACL i gefnogi hyfforddiant mwy effeithiol i staff ar gydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol, ee trwy gyfuno adnoddau. Dylai hyn gefnogi ymdriniaeth fwy cyson ac integredig hefyd, ond bydd angen rhoi trefniadau monitro effeithiol ar waith.

Cynllun Gweithredu Asesiad Effaith Llawn

Lle nodwyd effaith wahaniaethol, pa gamau a gymerir i ddileu'r effeithiau hynny neu i'w lliniaru?				
Camau a gymerwyd neu gamau arfaethedig	Rhesymwaith	Pwy fydd yn elwa	Erbyn pryd	Pwy sy'n gyfrifol
<p>➤ Cynnwys cydymffurfio a hyrwyddo dyletswyddau statudol cydraddoldeb fel gofyniad mewn contractau Partneriaethau ACL – o hydref 2009 Rhesymwaith: er mwyn sicrhau bod Partneriaethau'n ystyried materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol yn ystod eu gweithgareddau Cyfrifoldeb: APADGOS, Tîm Polisi Dysgu Buddiolwyr: Partneriaethau ACL, dysgwyr</p> <p>➤ Rhoi trefniadau monitro ar waith er mwyn sicrhau darpariaeth gyson trwy Bartneriaethau ACL o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol – o hydref 2009 Rhesymwaith: i sicrhau cysondeb wrth ymdrin â chydraddoldeb ac amrywiaeth trwy'r model darpariaeth newydd Cyfrifoldeb: APADGOS, Tîm Polisi Dysgu Buddiolwyr: Partneriaethau ACL, tiwtoriaid ACL, dysgwyr</p>				
Cyfiawnhad: Nodwyd effaith wahaniaethol ond mae rheswm dilys dros beidio â chymryd camau i ddileu neu i lliniaru'r effaith.				
Cyfleoedd: Nodwch y camau a gynlluniwyd i sicrhau bod yr effeithiau cadarnhad gymaint ag y gallant fod.				
Camau a gymerwyd neu gamau arfaethedig	Rhesymwaith	Pwy fydd yn elwa	Erbyn pryd	Pwy sy'n gyfrifol

➤ **Cynnwys hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth mewn gweithgareddau datblygu staff a gefnogir gan y polisi – o 2009**

Rhesymwaith: er mwyn sicrhau bod staff darparwyr dysgu a ariennir trwy'r Partneriaethau'n gymwys i ymdrin â materion cydraddoldeb ac amrywiaeth

Cyfrifoldeb: APADGOS, Tîm Polisi Dysgu

Buddiolwyr: Partneriaethau ACL, tiwtoriaid ACL, dysgwyr

➤ **Sicrhau ymdriniaeth gydgysylltiedig rhwng polisi ACL a strategaethau perthnasol eraill, yn genedlaethol ac yn lleol – o 2009**

Rhesymwaith: i sicrhau bod y polisi'n integreiddio'n effeithiol â strategaethau eraill er mwyn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer ehangu cyfranogiad

Cyfrifoldeb: APADGOS, Tîm Polisi Dysgu

Buddiolwyr: Partneriaethau ACL, dysgwyr

➤ **Ystyried sut gall canlyniadau'r prosiect Sail Dystiolaeth Cydraddoldeb gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu a gweithredu polisi ACL ymhellach – 2008 ymlaen**

Rhesymwaith: i sicrhau bod y polisi'n cael ei ddatblygu ar sail dystiolaeth gadarn a pherthnasol

Cyfrifoldeb: APADGOS, Tîm Polisi Dysgu

Buddiolwyr, Partneriaethau ACL, darparwyr dysgu tiwtoriaid ACL, dysgwyr

➤ **Ystyried cyfleoedd i wahanu grwpiau cydraddoldeb ymhellach. Er enghraifft, sut gall y polisi ddylanwadu'n gadarnhaol ar ganlyniadau dysgu gofalwyr.**

Formatted: Bullets and Numbering